**ELL 2-00 (p.1)**

**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adolygiad o'r Polisi – Darparu Lleoedd mewn Ysgolion**

**Diben**

1. Cynnig crynodeb o'r adolygiad o'r polisi ar Ddarparu Lleoedd mewn Ysgolion a chanlyniad y broses ymgynghori ysgrifenedig i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

   **Cefndir**

2. Cytunodd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar gylch gwaith yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 1999 ond penderfynodd beidio â dechrau ar yr adolygiad hyd yn ddiweddarach yn y sesiwn.

   ***Cylch gwaith***

   ***'Edrych ar leoedd mewn ysgolion, yn enwedig ar leoedd gwag, gyda'r bwriad o :***

   ***(i) Pennu'r lefel orau o leoedd gwag, a fydd yn caniatáu hyblygrwydd;***

   ***(ii) Pennu cost cadw mwy o leoedd gwag na'r lefel orau hon; a***

   ***(iii) Nodi'r camau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd i reoli eu stociau o leoedd ysgol yn effeithiol.***

3. Yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2000, derbyniodd y Pwyllgor bapur (CYN 16-8-00(p.1)) a oedd yn cynnig gwybodaeth gefndir ar gyfer adolygu'r polisi ac argymhellion ynghylch sut i gynnal yr adolygiad. Cadarnhaodd y pwyllgor gylch gwaith yr adolygiad yn y cyfarfod hwn hefyd. Gweler copi o'r papur hwn yn **Atodiad A**.
4. Cytunwyd mai'r cam cyntaf fyddai ymgynghori â'r holl gyrff sydd â diddordeb, gweler copi o'r llythyr ymgynghori yn **Atodiad B** ac mae hefyd yn cynnwys rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Daeth y broses ymgynghori ysgrifenedig i ben ym mis Hydref 2000 a cheir crynodeb o'r ymatebion isod.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

5. Ymgynghorwyd â 44 o gyrff i gyd; cafwyd ymatebion gan 22 ohonynt gan gynnwys 10 Awdurdod Addysg Lleol, gweler rhestr o'r rhai a ymatebodd yn **Atodiad C**. Ceir copïau o'r ymatebion llawn gan y Clerc.

i. Pennu'r lefel orau o leoedd gwag, a fydd yn caniatáu hyblygrwydd.

- Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cytuno'n llwyr â brawddeg gyntaf paragraff 4 y papur Pwyllgor, a oedd yn nodi 'nid yw'r holl leoedd gwag sydd mewn ysgolion yn lleoedd dros ben ac ni allwn gael gwared ar y lleoedd sydd dros ben i gyd'.

- Roedd mwyafrif yr AALlau a ymatebodd yn derbyn bod awgrym y Comisiwn Archwilio y dylai 85% - 105% o'r lleoedd fod yn llawn, ac na ddylai mwy na 10% o'r lleoedd fod yn wag, yn dderbyniol ond roeddynt yn teimlo na ddylid cadw'n rhy haearnaidd at y ffigurau hyn. Roedd ar rai awdurdodau angen mwy o hyblygrwydd na'i gilydd er mwyn gallu ymdopi ag amrywiadau o ran dewis rhieni, newid yn y boblogaeth neu ffactorau arbennig sy'n cyfyngu ar allu ysgolion i ad-drefnu, fel lleoliad gwledig iawn. Dylent gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth.

- Mynegwyd pryder ynghylch y dyhead i bennu'r maint ymarferol leiaf ar gyfer ysgol neu chweched dosbarth - gallai amodau lleol effeithio ar hyn a gellid derbyn maint ysgol a fyddai'n annerbyniol o fach mewn ardal drefol fel yr unig ateb ymarferol mewn ardal wledig.

- Mae angen bod yn hyblyg er mwyn ymdopi â'r newid yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, addysg ryngenwadol addysg un-rhyw ac addysg feithrin.

- Dylid ystyried swyddogaeth ysgolion yn y gymuned a'u rhan hwy yn y ddarpariaeth dysgu gydol oes, yn arbennig yng ngoleuni'r rhaglen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' a'r ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau datblygu cymunedol a'u pwysigrwydd yn y Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol arfaethedig.

- Mynegwyd pryder fod diffiniad y Comisiwn Archwilio o 'werth am arian' yn rhy gul ac nad oedd yn ystyried y cyd-destun ehangach o addysg yn y gymuned.

- Dylid ystyried yr angen am athrawon cymwysedig yng Nghymru a lleoliad cyfleoedd

gwaith i’r bobl sy’n derbyn hyfforddiant.

- Dylid ystyried a yw’n bosibl darparu addysg o safon uchel ar draws y cwricwlwm, yn arbennig mewn ysgolion bach sydd â dau neu dri o athrawon, neu chweched dosbarth bach.

i. <u>Pennu cost cadw mwy o leoedd gwag na’r lefel orau hon</u>

- Mae rhai Awdurdodau Lleol yn defnyddio Cynlluniau Rheoli Asedau i’w helpu i bennu maint y costau.
- Mae llawer o ysgolion eisoes yn defnyddio’r gofod sydd ganddynt dros ben yn effeithiol ee i ehangu’r adnoddau Technoleg Gwybodaeth, darparu ystafelloedd athrawon, llyfrgelloedd, mannau adnoddau.
- Y broblem a ddaw yn sgil 'roi adnoddau i’w cadw’ os nad yw’n bosibl atal gwasanaethau fel gwresogi.
- Dylid ystyried ffactorau fel defnyddio ystafelloedd dros dro ac adeiladau sydd o safon annigonol.
- Edrych ar ffyrdd eraill o gynnig darpariaeth e.g. clystyrau o ysgolion (ffederasiynau), rhannu adnoddau.
- Defnyddio adnoddau at ddefnydd allanol er mwyn creu incwm ee dysgu gydol oes, adnoddau cymunedol, ystafelloedd pwyllgora
- Rhaid peidio ag anwybyddu cost cludo disgyblion i leoliadau eraill
- Dim ond drwy gau ysgolion y gellid arbed arian sylweddol

<u>(iii) nodi’r camau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd i reoli eu stociau o leoedd ysgol yn effeithiol.</u>

- Mae eisiau gwybodaeth fanylach arnynt ynghylch faint o stoc sydd ganddynt, a safon y stoc honno, a gwell rhagolygon ynghylch y galw. Roedd llawer yn ystyried fod y Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion a'r Cynlluniau Rheoli Asedau yn erfynnau allweddol er mwyn rheoli eu stociau o leoedd mewn ysgolion yn well.

- Mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried yn fwy gofalus sut y gallai ei gynlluniau effeithio ar y broses o gynllunio ee mae'r camau i leihau maint dosbarthiadau yn effeithio ar sut y defnyddir adeiladau.

- Dylid cynnwys dadansoddiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, a'r hyn a hyn a ddarperir, ym mhob Cynllun Trefniadaeth Ysgolion fel ei fod yn rhan o gynllun strategol yr AALl ar gyfer lleoedd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth addysg ryngenwadol.

Hefyd, gofynnwyd i'r AALlau wneud sylwadau ar:

i. <u>eu trefniadau monitro.</u>

- Roedd y mwyafrif ohonynt yn cyfeirio at y gwaith sy'n sail ar gyfer eu Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion gan gynnwys arolygon blynyddol o'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion, rhagweld nifer y disgyblion a'r galw yn ôl ardal a sector ee cyfrwng Cymraeg, enwadol, anghenion arbennig, addysg feithrin ac addysg un-rhyw.

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwyr Addysg Eglwysig.

- Adolygu Nifer y Mynediadau Sylfaenol a dalgylchoedd

- Cynlluniau Rheoli Asedau

- Ymwneud â Chlwb Meincnodi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ar Ffactorau sy'n Hanfodol i Lwyddiant a Dangosyddion Perfformiad

i. <u>pa gynlluniau sydd ganddynt i wella a datblygu eu methodoleg ar gyfer rhagweld nifer y disgyblion.</u>

- Nododd yr AALlau nifer o ffynonellau data yr oeddynt yn eu defnyddio i lunio eu methodoleg rhagweld:
- 'Data genedigaethau byw'
- Data'r Awdurdodau Iechyd ar ystadegau imiwneiddio

- Gwybodaeth ynghylch adeiladu tai
- Gwybodaeth ar ddatblygu economaidd ee adeiladu ffatrïoedd neu ganolfannau busnes
- Arolwg o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yr AALl
- Gwybodaeth Clwb Meincnodi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

- Cyfrifir rhagolygon ar sail ardal a/neu ddalgylchoedd.

- Ni cheir un fethodoleg gyffredin trwy Gymru

- Ceir data rhagolwg cywir am y 3 blynedd nesaf fel arfer; mae hyn yn golygu mai damcaniaethol yn unig yw'r data ar gyfer dwy flynedd olaf y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion 5 mlynedd.

i. <u>Sut y cyrhaeddir casgliadau a sut y llunnir cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith.</u>

Ni chafwyd unrhyw ymateb clir i'r cwestiwn hwn; roedd y rhai a ymatebodd yn nodi gwahanol gamau'r broses a ddefnyddir ganddynt. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth fod un ffordd gyffredin o fynd ati ledled Cymru er bod yn rhaid i bob awdurdod bellach gynhyrchu Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion bob blwyddyn, a bod yn rhaid iddynt gynnwys casgliadau o'r fath.

- Ceir asesiadau ac adolygiadau blynyddol o ragweliadau gan gynnwys lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ryngenwadol.

- Ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion

- Mynegwyd pryder nad yw rhieni yn rhan o'r broses, yn enwedig o gofio fod dewis y rhieni yn ffactor i'w ystyried wrth ragweld galw.

- Ystyried yr angen am adeiladau a safon yr adeiladau sydd ar gael.

**Gofynnwyd hefyd am sylwadau ynghylch:**

<u>Addysg Cyfrwng Cymraeg</u>

- Mynegwyd peth pryder nad oedd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol o gynlluniau strategol pob AALl ar gyfer darparu lleoedd mewn ysgolion. Roedd llawer o gydweithio da yn digwydd rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhai AALlau ond roedd y Bwrdd yn teimlo fod y diffyg integreiddio hwn yn golygu fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig mewn adeiladau gorlawn o safon isel, ac nad oedd strategaethau tymor hir yn eu lle i gwrdd â'r galw cynyddol. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y diffyg cysylltiad rhwng awdurdodau mewn achosion ble y mae canran uchel o'r disgyblion yn dod o ardaloedd AALlau eraill.

- Dywedwyd hefyd y dylid ystyried materion cymunedol wrth ystyried ad-drefnu lleoedd mewn ysgolion bach neu ysgolion gwledig gan y gallai hyn gael effaith andwyol ar ddyfodol yr iaith Gymraeg ei hun.

Addysg ryngenwadol

Codwyd materion tebyg yma, sef yr angen am integreiddio anghenion addysg ryngenwadol o fewn y broses o gynllunio strategol.

**Ysgolion Bach**

Er bod mater Darparu Lleoedd mewn Ysgolion yn wahanol i gwestiwn ysgolion bach, cyfeiriwyd ato yn aml yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Nodwyd yn arbennig fod parhad ysgolion bach yn hanfodol i lewyrch rhai cymunedau, mewn ardaloedd gwledig yn arbennig. Cysylltwyd hyn â mater yr iaith Gymraeg, sydd ar ei chryfaf mewn ardaloedd gwledig.

Codwyd mater ansawdd y dysgu mewn ysgolion bach, gyda rhai o'r rhai a ymatebodd yn gwneud y sylw ei bod yn anodd darparu addysg o safon uchel ar draws y cwricwlwm cyfan mewn ysgolion sydd ag ond dau neu dri o athrawon. Yn ei ymateb, nododd Estyn nad oedd pob ysgol yn fach am eu bod yn methu ag ymdopi â mater lleoedd sydd dros ben a bod rhai ysgolion bach yn llwyddo i ddarparu addysg o safon uchel.

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd o blaid edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu addysg mewn cymunedau gwledig, ffyrdd sy'n gwneud y gorau o'r ysgolion bach ac yn rhoi swyddogaeth bwysicach iddynt o fewn y gymuned. Awgrymwyd cael 'clwstwr' o ysgolion neu ysgolion ffederal fel un opsiwn. Hefyd, awgrymwyd y dylai'r ysgolion fentro mwy i faes dysgu gydol oes a dod yn ganolfannau adnoddau addysg cymunedol.

**Cyflwyniadau Llafar**

Daw'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfrifol am yr adolygiad polisi hwn yng ngham 2, sef dechrau'r broses o dderbyn cyflwyniadau llafar. Mae dwy sesiwn o dderbyn cyflwyniadau llafar wedi'u trefnu:

**17 Tachwedd, Siambr Cyngor Ceredigion, Aberaeron**

Clywed cyflwyniadau gan yr Archwiliad Dosbarth; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Ysgolion Bach; a

**14 Rhagfyr, Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful**

Clywed cyflwyniadau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg; Yr Awdurdod Eglwysi Esgobaethol ac Estyn.

**Gwelir isod restr o’r materion y gallai Aelodau eu codi gyda’r cyrff hyn.**

**Archwiliad Dosbarth**

Beth yw’r lefel orau o leoedd gwag? I ba raddau y mae’n amrywio yn ôl ffactorau lleol?

Pa dystiolaeth sydd ganddynt i ategu hyn?

Sut ydych yn credu y dylai AALlau gyfrif cost lleoedd sydd heb eu llenwi? A oes rheol gyffredinol y gellid ei defnyddio? A fyddai hyn yn ymarfer buddiol?

Pan fo ysgolion yn addasu eu hystafelloedd dosbarth gwag ac yn eu defnyddio fel ystafelloedd crefft, ystafelloedd Technoleg Gwybodaeth ac ati, a ddylid peidio ag ystyried yr ystafelloedd hyn fel gofod sydd dros ben? A oes angen llunio canllawiau ynghylch faint o ofod o’r fath sy’n dderbyniol o fewn ysgol?

Beth am ganlyniadau ariannol ehangach ad-drefnu ee yr effaith ar y gymuned?

A ddylai costau trafnidiaeth fod yn ffactor?

Beth yw’r berthynas â safon yr addysg a ddarperir?

Sut gallai’r defnydd ychwanegol a wneir o ysgolion bach fod yn ffactor o fewn y broses?

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Sut gallem gael dull unffurf o weithredu ledled Cymru?

Beth sy’n cael ei wneud i rannu arferion da?

Beth maent yn ei wybod am Glwb Meincnodi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru?

Beth am safon yr adeiladau a’r gorddefnydd o adeiladau dros dro?

Sut dylai anghenion yr iaith Gymraeg ac addysg ryngenwadol gael eu hintegreiddio yn well o fewn y broses o gynllunio strategol?

Sut gallai’r defnydd ychwanegol a wneir o ysgolion bach fod yn ffactor o fewn y broses?

Beth mae’r AALlau yn ei ystyried yw’r rhwystr mwyaf iddynt fynd i’r afael â’r mater hwn?

Beth hoffai’r AALlau weld y Cynulliad Cenedlaethol yn ei wneud ee mwy o ganllawiau ym mha feysydd?

A yw’r AALlau yn deall strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn y maes hwn – a oes angen mwy o gefnogaeth arnynt? Sut dylid cynnig hyn?

Mae’r AALlau yn crybwyll problemau gyda’r fformwlâu asesu lleoedd: a ydynt yn credu bod hyn yn camliwio’r sefyllfa yn sylweddol?

**Cymdeithas yr Ysgolion Bach**

Rydych yn gwrthwynebu’r syniad o osod maint lleiaf penodol ar gyfer ysgol hyfyw; a ydych yn credu bod unrhyw amgylchiadau yn cyfiawnhau cau ysgol bentref fach?

A oes gennych farn ynghylch beth sy’n dderbyniol o ran amser teithio i ysgolion cynradd?

Sut dylid cymryd i ystyriaeth safbwyntiau rhieni yn yr argymhellion ar gyfer ad-drefnu?

Beth gallwn ni ei wneud i ddiogelu safon yr addysg a’r cyfleoedd addysgiadol a gynigir mewn ysgolion bach?

Beth am ddatblygu a chefnogi athrawon e.e. cyrsiau HMS?

A hoffech ymhelaethu ar eich awgrym y dylid defnyddio adeiladau ysgol presennol at ddibenion addysgiadol eraill? Sut ydych yn gweld y bydd y datblygiadau hyn yn helpu ysgolion bach i barhau’n hyfyw?

Byddwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer y sesiwn nesaf o gyflwyniadau llafar yn nes at amser y cyfarfod hwnnw, sef 14 Rhagfyr.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

Tachwedd 2000